

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
RHONDDA CYNON TAF  
RHONDDA CYNON TAF**

**Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal ym Mhencadlys y Cyngor,  
Y Pafiliynau, Cwm Clydach (Siambwr y Cyngor)**

**Dydd Iau, 17 Mawrth, 2016 am 10.30am**

**Dolen gyswllt: Mrs Emma Wilkins (Rhif ffôn 01443 424062)**

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn 5pm ar 15 Mawrth 2016. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y cynghorydd ynghlŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, ffoniwch Swyddfa'r Cabinet ar 01443-424062 neu anfonwch e-bost i [Cabinet@rctcbc.gov.uk](mailto:Cabinet@rctcbc.gov.uk)

**MATERION I'W TRAFOD**

**1 DATGAN BUDDIANT:**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Côt Ymddygiad y Cyngor.

**Noder:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2 GWELLA DARPARIAETH ADDYSG GYNRADD YNG NGLYNRHEDYNOG**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n rhoi gwybod i'r Cynghorwyr am ganlyniad cyhoeddi Hysbysiad Statudol parthed y cynnig i gau Ysgol Babanod Glynrhedynog a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gynradd Parc-y-Darren, gan ddibynnu ar ddewis rhieni.

- 3 GWELLA DARPARIAETH ADDYSG GYNRADD YN LLWYN-Y-PÏA**  
Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n rhoi gwybod i'r Cynghorwyr am ganlyniad cyhoeddi Hysbysiad Statudol parthed y cynnig i gau Ysgol Babanod Ynyscynon a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gynradd Pontrhondda, gan ddibynnu ar ddewis rhieni, ym Medi 2016.  
**Tudalennau 13 - 22**
- 4 ADRODDIAD CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL 2014 / 15**  
Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol sy'n cynnwys gwybodaeth am yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol ar gyfer 2014/15 y mae rhaid ei gyhoeddi erbyn 31 Mawrth, 2016.  
**Tudalennau 23 - 76**
- 5 ASESIAID DIGONOLRWYDD GOFAL PLANT 2016: Y DIWEDDARAF**  
Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n rhoi'r diweddaraf i'r Cabinet ynghylch adroddiad drafft ar Aseiad Digonolrwydd Gofal Plant 2016 ar gyfer trafodaeth.  
**Tudalennau 77 - 118**
- 6 SAFONAU STATUDOL Y GYMRAEG: APÊL O DAN ADRAN 54 MESUR Y GYMRAEG (CYMRU) 2011.**  
Derbyn adroddiad ar y cyd Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes ac Ysgrifennydd i'r Cabinet sy'n rhoi gwybod i'r Aelodau am apêl y Cyngor mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg yn dilyn ystyriaeth gan Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg.  
**Tudalennau 119 - 138**
- 7 DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT: RHAGLEN GWEITHREDU**  
Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi'r diweddaraf ynglŷn â hynt gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'i goblygiadau ar gyfer Cyngor Rhondda Cynon Taf.  
**Tudalennau 139 - 166**
- 8 DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT: RHAGLEN GWEITHREDU GWASANAETH DATBLYGU GWEITHLU GOFAL CYMDEITHASOL CWM TAF.**  
Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n amlinellu'r cytundeb cyfreithiol ac atodlen ariannol arfaethedig ar gyfer Cyngor Rhondda Cynon Taf a Chyngor Merthyr Tudful i lywodraethu'r trefniadau rhanbarthol ar gyfer Gwasanaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cwm Taf.  
**Tudalennau 167 - 232**

**9 RHAN 3, ADRAN 5 - CYNLLUN CYFFREDINOL DIRPRWYO SWYDDOGAETHAU'R CORFF GWEITHREDOL A SWYDDOGAETHAU ANWEITHREDOL I SWYDDOGION.**

Derbyn adroddiad Ysgrifennydd i'r Cabinet sy'n rhoi gwybodaeth i Aelodau am y newidiadau sydd eisoes wedi'u gwneud i Gynllun Cyffredinol Dirprwyo'r Cyngor ynghyd â'r newidiadau arfaethedig i'w gwneud iddo.

**Tudalennau 233 - 246**

**10 RHAGLEN GYFALAF Y CYNGOR 2016/17 - 2018/19**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a'r Gwasanaethau Rheng Flaen sy'n ceisio sêl bendith y Cabinet i gynnig rhaglen cyfalaf 3 blynedd i'r Cyngor ar gyfer 2016/17 - 2018/19.

**Tudalennau 247 - 276**

**11 POLISI DIOGELU CORFFORAETHOL (DRAFFT), CYNLLUN DARPARU A CHOFRESTR RISG.**

Derbyn adroddiad ar y cyd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen a Chyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n ceisio sêl bendith y Cabinet ar y Polisi Diogelu Corfforaethol.

**Tudalennau 277 - 308**

**12 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:—**

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.”

**13 DILEU DYLEDION NAD OES MODD EU CASGLU.**

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig.

**Tudalennau 309 - 322**

**14 MATERION BRYD**

Ystyried unrhyw faterion bryd y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet**



**This page is left Blank.**